# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT

**DYDD** Gwener, 20 Mai 2016

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** G.O. Jones (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
M.S. Davies, Democratic Services Officer
**Ystafell 72A, Neuadd y Sir, Caerfyrrdin 10.00am - 10.15 am**

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**2. COFNODION PENDERFYNIADAU 18FED MAWRTH, 2016**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 18fed Mawrth, 2016 yn gofnod cywir.**

**3. PENODI LLYWODRAETHWYR AWDURDOD LLEOL**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law am y lleoedd gwag i Lywodraethwyr Awdurdod Lleol yn y sir. Nodwyd bod gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau wedi ei roi i Gadeirydd y Llywodraethwyr, i'r Pennaeth ac i'r Aelod(au) Lleol yn achos Ysgolion Cynradd. Hefyd dywedwyd bod Llywodraethwyr ALl yn cael eu penodi am 4 blynedd ac, os oedd y lle'n wag oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, bod nodyn ynghylch hynny yn y manylion am yr unigolyn os oedd am gael ei ailbenodi.

**PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y ceisiadau a ddaethai i law, benodi'r canlynol yn Llywodraethwyr ALl er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi lleoedd gwag ar Gyrff Llywodraethu:-**

| Yr ysgol | Penodiad[au] |
|---|---|
| **Beca**<br>(2 le gwag, 2 enwebiad) | Mr. J. Willams [o 16/6/16]<br>Y Cyng. R. Llewellyn [o 3/9/16] |
| **Bigyn**<br>(1 lle gwag, 1 enwebiad) | Y Cyng. J. Edmunds [o 20/11/16] |
| **Bro Brynach**<br>(1 lle gwag, 1 enwebiad) | Y Cyng. R. Llewellyn [o 3/9/16] |
| **Cae'r Felin**<br>(1 lle gwag, 1 enwebiad) | Y Cyng. L.D. Evans [o 3/9/16] |
| **Ffederasiwn Ysgolion Carwe Gwynfryn a Phont-henri**<br>(2 le gwag, 1 enwebiad) | Y Cyng. W.T. Evans [o 8/10/16] |
| **Ffederasiwn Ysgolion Cross Hands a Dre-fach**<br>(4 lle gwag, 3 enwebiad) | Y Cyng. E. Dole [o 8/10/16]<br>Y Cyng. D. Price [o 8/10/16]<br>Y Cyng. M.K. Thomas [o 8/10/16] |

| | |
|---|---|
| **Tre Ioan**<br>(1 lle gwag, 1 enwebiad) | Y Cyng. J. Thomas [o 3/9/16] |
| **Llangain**<br>(1 lle gwag, 1 enwebiad) | Y Cyng. D.B. Davies [o 3/9/16] |
| **Llanllwni**<br>(1 lle gwag, 1 enwebiad) | Y Cyng. L.D. Evans [o 3/9/16] |
| **Llannon**<br>(1 lle gwag, 1 enwebiad) | Y Cyng. E. Dole [o 3/9/16] |
| **Llansteffan**<br>(1 lle gwag, 1 enwebiad) | Y Cyng. D.B. Davies [o 3/9/16] |
| **Llys Hywel**<br>(1 lle gwag, 1 enwebiad) | Y Cyng. S.M. Allen [o 3/9/16] |
| **Maes y Morfa**<br>(3 lle gwag, 1 enwebiad) | Y Cyng. W. Lemon |
| **Myrddin**<br>(2 le gwag, 1 enwebiad) | Mr. D. Maynard |
| **Parc-yr-hun**<br>(1 lle gwag, 1 enwebiad) | Y Cyng. P. Cooper [o 3/9/16] |
| **Pen-bre**<br>(1 lle gwag, 1 enwebiad) | Y Cyng. H. Shepardson [o 3/9/16] |
| **Saron**<br>(1 lle gwag, 1 enwebiad) | Y Cyng. P. Cooper [o 24/9/16] |
| **Dyffryn y Swistir**<br>(1 lle gwag, 1 enwebiad) | Y Cyng. A.G. Morgan [o 3/9/16] |
| **Y Bedol**<br>(2 le gwag, 1 enwebiad) | Y Cyng. D.M. Jenkins |
| **Y Dderwen**<br>(3 lle gwag, 1 enwebiad) | Y Cyng. G.O. Jones [o 24/9/16]<br>Y Cyng. P. Hughes Griffiths [o 24/9/16] |
| **Bro Myrddin**<br>(2 le gwag, 2 enwebiad) | Y Cyng. L.M. Stephens [o 24/9/16]<br>Y Cyng. P. Hughes Griffiths [o 24/9/16] |
| **Dyffryn Aman**<br>(3 lle gwag, 1 enwebiad) | Mrs. J. Potter [o 3/9/16] |
| **Dyffryn Taf**<br>(1 lle gwag, 1 enwebiad) | Mr. P. Davies |

**Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth** Mr. R. Selby
(1 lle gwag, 1 enwebiad)

**4. CYMERADWYO DYDDIADAU ARFAETHEDIG TYMHORAU A GWYLIAU'R YSGOLION AR GYFER BLWYDDYN ACADEMAIDD 2018/19**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a fanylai ar ddyddiadau arfaethedig tymhorau a gwyliau'r ysgolion ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19. Dywedwyd bod rheidrwydd, o dan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014, ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig i gydlynu â'i gilydd er mwyn sicrhau bod dyddiadau'r tymhorau yr un fath, neu cyn agosed ag y bo modd, ar yr amod y gallai Gweinidogion Llywodraeth Cymru roi cyfarwyddyd ynghylch dyddiadau'r tymhorau os na ellid eu cysoni neu os oedd angen eu newid. Gan roi sylw i ofynion y Ddeddf, yr oedd y dyddiadau arfaethedig canlynol wedi'u paratoi ar gyfer dyddiadau tymhorau a gwyliau'r ysgolion yn sgil eu trafod ac yn sgil ymgynghori'n gyffredinol â'r awdurdodau cyfagos:-

| Tymor | Dechrau'r Tymor | Dechrau Hanner Tymor | Diwedd Hanner Tymor | Diwedd y Tymor |
|---|---|---|---|---|
| **Hydref** | Dydd Llun 3ydd Medi 18 | Dydd Llun 29ain Hydref 18 | Dydd Gwener, 2il Tach 18 | Dydd Gwener 21ain Rhagfyr 18 |
| **Gwanwyn** | Dydd Llun 7fed Ionawr 19 | Dydd Llun 25ain Chwefror 19 | Dydd Gwener 1af Mawrth 19 | Dydd Gwener 12fed Ebrill 19 |
| **Haf** | Dydd Llun 29ain Ebrill 19 | Dydd Llun 27ain Mai 19 | Dydd Gwener 31ain Mai 19 | Dydd Llun 22ain Gorffennaf 19 |

*Dydd Sul y Pasg – Dydd Sul 21ain Ebrill 2019; Calan Mai – Dydd Llun, 6ed Mai 2019*

Rhoddwyd gwybod i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, pe byddid yn cymeradwyo'r dyddiadau, y byddent yn amodol ar y trefniadau cysoni a amlinellwyd uchod ac felly na ellid eu cadarnhau'n derfynol hyd nes y byddid wedi cael cadarnhad gan Lywodraeth Cymru.

**PENDERFYNWYD, yn amodol ar gael cadarnhad gan Lywodraeth Cymru, gymeradwyo Dyddiadau Tymhorau a Gwyliau'r Ysgolion ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2018/19.**

________________________ __________________

**CHAIR** **DATE**